| | | |
|---|---|---|
| pacey \| CYMRU | **Astudiaeth Achos Camau** | Camau<br>Cynllun Dysgu Cymraeg Addysg a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar<br>Learn Welsh Scheme for Early Years Education and Childcare |

**Astudiaeth achos – Cefnogi aelodau i gael mynediad i raglen hyfforddi Camau.**

## Trosolwg o'r gwaith

Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut mae PACEY Cymru wedi bod yn gweithio gyda gwarchodwyr plant ledled Cymru i gefnogi eu datblygiad yn y Gymraeg drwy raglen hyfforddi Camau.

## Beth yw cefndir y gwaith hwn?

Gyda gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, mae llawer mwy o bwyslais ar gyflwyno'r Gymraeg i blant a babanod mor gynnar â phosibl er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer eu dysgu.

Mae'r rhaglen hyfforddi Camau, a luniwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn cefnogi ymarferwyr yn y sector gofal plant a chwarae i ddatblygu a defnyddio mwy o'r Gymraeg gyda phlant er mwyn rhoi cychwyn da iddynt ar eu taith tuag at ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mae PACEY Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a phartneriaid Cwlwm i ddarparu hyfforddiant Cymraeg wedi'i deilwra i'r sector. Mae cynllun Camau yn gwrs hunan-astudio ar-lein tair rhan ar Lefel Mynediad ac mae ar gael i'r sector gofal plant a chwarae ac mae wedi'i ariannu'n llawn diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru. Enw'r rhan gyntaf yw Mynediad 1, yr ail yw Mynediad 2, a'r drydedd yw Mynediad 3. Mae pob cwrs yn ymwneud ag 20 awr o ddysgu annibynnol. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd wedi lansio Mynediad Gwaith Chwarae 1 yn ddiweddar, ond hyd yma nid yw aelodau PACEY wedi cael mynediad iddynt.

## Beth wnaeth PACEY Cymru?

Mae Rheolwr Prosiect a Chydlynydd y Gymraeg PACEY Cymru wedi mynychu cyfarfodydd rhithwir ar-lein yn rheolaidd gyda phartneriaid Cwlwm i drafod cynlluniau gwaith a thargedau er mwyn darparu'r cymorth gorau posibl i ddysgwyr ac i sicrhau bod hyfforddiant yn dylanwadu ar arfer. Roedd y cyfarfodydd yn gyfle i rannu syniadau ac arfer da gyda'i gilydd, ac i drafod materion sy'n codi ac i gydlynu negeseuon cymorth a hyrwyddo.

Roedd gan PACEY Cymru ran i'w chwarae wrth hyrwyddo'r hyfforddiant gydag aelodau PACEY. Trwy hyrwyddo'r cwrs yn barhaus, derbyniodd PACEY Cymru gyfanswm o 45 o ddarpar ddysgwyr yn mynegi eu diddordeb rhwng Ebrill 2022 a Medi 2022. Mae hyn yn cynnwys 31 ar gyfer Mynediad 1, 8 ar gyfer Mynediad 2 a 6 ar gyfer Mynediad 3, ac mae'r ffigurau hyn yn parhau i dyfu. Gofynnwyd i'r aelodau

gysylltu â PACEY Cymru i fynegi eu diddordebau yn y lle cyntaf, lle byddai gofyn iddynt lenwi ffurflen gofrestru i gael mynediad i'r cwrs. Unwaith y byddai'r camau hyn wedi'u cwblhau, byddai dysgwyr wedyn yn cael mynediad i'r cwrs o'u dewis gyda'r opsiwn o gael mynediad i fersiwn gogledd neu dde Cymru o'r cwrs.

Er mwyn gwella'r dysgu ymhellach mae dysgwyr Camau wedi defnyddio gweminarau cymorth iaith Gymraeg PACEY Cymru. Mae’r sesiynau byr hyn yn addas ar gyfer y rhai sydd ag ychydig neu ddim sgiliau Cymraeg, yn ogystal â’r rhai sy’n dymuno adeiladu ar eu hyder i ddefnyddio’r iaith. Mae geirfa Gymraeg yn cael ei rhannu a’i hategu gan ddogfen sain i’w defnyddio nôl yn y lleoliad, yn canolbwyntio ar wahanol destunau neu themâu y gall dysgwyr eu defnyddio yn eu trefn ddyddiol, gan ddilyn diddordeb y plant.

Yn ogystal â hyn, mae PACEY Cymru hefyd yn darparu cymorth iaith Gymraeg un i un dros y ffôn ac e-bost y gall dysgwyr ei gyrchu o fewn eu haelodaeth PACEY.
Datblygodd PACEY Cymru hefyd amrywiaeth o adnoddau ategol y gallai dysgwyr eu cyrchu ar y platfform i wella eu dysgu ymhellach. Mapiwyd yr adnoddau hyn i'r unedau perthnasol o fewn y cwrs a'u hyrwyddo gan Gydlynwyr yr Iaith Gymraeg.

**Tystlythyr gan ddysgwr Camau – Deborah Badeida, gwarchodwr plant cofrestredig, Caerdydd.**

Mae Deborah wedi bod yn gwarchod plant ers 6 blynedd, ac mae wedi’i lleoli yng Nghaerdydd, de Cymru. Ynghyd â chefnogaeth ei chynorthwyydd, mae Deborah yn gofalu am 7 o blant, rhwng 1 a 3 oed.

Rheswm Deborah dros dderbyn hyfforddiant Camau oedd er mwyn cynyddu lefel ei Chymraeg a gallu hybu’r Gymraeg i blant yn y lleoliad, yn ogystal â’i phlant ei hun. “*“Fy nod tymor hir yw bod yn siaradwr Cymraeg rhugl a chynyddu faint o Gymraeg rydyn ni’n ei defnyddio yn y lleoliad. Hoffwn allu cynnig cyngor, sgwrsio a rhannu syniadau yn Gymraeg, a chynyddu cyfranogiad plant a rhieni yn y Gymraeg.”*
Ar ôl cael hyfforddiant Camau, fe ofynnon ni i Deborah a yw hi wedi defnyddio mwy o Gymraeg yn ei hymarfer, ac atebodd hi, ***“****Ydw, rydw i nawr yn defnyddio’r Gymraeg bob dydd i sgwrsio gyda rhieni wrth gyfarch ac yn ddyddiol gyda’r plant sy’n mynychu fy lleoliad.”*




Gofynnom i Deborah a yw hyfforddiant Camau wedi ei hannog i gynllunio mwy ar gyfer datblygiad y Gymraeg o fewn ei lleoliad, ac ymatebodd i hynny, “*Ydw, rydym wedi gwneud hela chwilod, straeon, a chaneuon yn Gymraeg. Cynlluniais stori ryngweithiol yn Gymraeg, lle gallai plant gymryd rhan ac ychwanegu lliwiau neu eitemau ac ailadrodd y geiriau yn Gymraeg. Cawsom ganeuon*

www.clybiauplantcymru.org | https://earlyyears.wales/ | https://www.meithrin.cymru/
https://www.ndna.org.uk/ | www.cwlwm.org.uk | https://www.pacey.org.uk/

*anifeiliaid Cymreig hefyd, gydag anifeiliaid fferm yn defnyddio [adnodd sain anifeiliaid]() PACEY Cymru. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys cân y tywydd gyda lluniau gweledol o dywydd gwahanol; casglu eitemau yn Gymraeg; helfeydd natur yn Gymraeg.”*





Rhannodd Deborah gyda ni rai delweddau a dynnwyd o weithgareddau lle’r oedd hi wedi ymgorffori geirfa Gymraeg, a llyfrau stori.

Yma gallwch weld y plant yng ngofal Deborah yn mwynhau’r awyr agored, yn dysgu am y termau Cymraeg am ‘bwystfil bach’ y daethant o hyd iddo’n lleol, ac yn rhannu stori Gymraeg gyda’i

Ynghyd â hyfforddiant Camau, mae Deborah hefyd wedi defnyddio gweminarau cymorth iaith Gymraeg PACEY Cymru, porth hyfforddi ar-lein CEY smart yn ogystal ag adnoddau sain Cymraeg i gefnogi ei gweithgareddau Cymraeg. Ychwanegodd Deborah, *“Rwyf wedi mwynhau cymryd rhan yn y gweminarau gyda PACEY Cymru yn fawr ac mae cwrs Camau yn wych. Mae’n bopeth sydd ei angen arnaf i ddatblygu fy sgiliau Cymraeg ymhellach.”*

Dyma gyngor Deborah i’r rhai sy’n ystyried dilyn yr hyfforddiant: *“Cymerwch y cam cyntaf a dechreuwch! Mae'r cwrs yn hawdd ei ddefnyddio ac yn gymaint o hwyl. Darperir ar gyfer popeth, a byddwch yn darganfod cymaint mwy nag yr oeddech wedi'i feddwl, a byddwch yn sylweddoli faint rydych chi'n ei wybod yn barod wrth i chi symud ymlaen."*

| pacey CYMRU | **Camau Case Study** | Camau – Cynllun Dysgu Cymraeg Addysg a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar – Learn Welsh Scheme for Early Years Education and Childcare |
|---|---|---|

**Case Study – Supporting members accessing the Camau training programme.**

## Overview of the work

This case study demonstrates how PACEY Cymru have been working with childminders across Wales to support their Welsh language development through the Camau training programme.

## What is the background to this work?

With Welsh Government's vision of reaching a million Welsh language speakers in Wales by 2050, there is much more emphasis on the Welsh language being introduced to children and babies as early as possible in order to set the foundations for their learning.

The Camau training programme, devised by the National Centre for Learning Welsh supports practitioners in the childcare and play sector to develop and use more of the Welsh language with children in order to give them a good start on their journey towards becoming fluent Welsh speakers.

PACEY Cymru have been working with The National Centre for Learning Welsh and Cwlwm partners to provide the sector with tailor made Welsh language training. The Camau scheme is a three-part online self-study course at Entry level and has been made available to the childcare and play sector and is fully funded with thanks to Welsh Government funding. The first named Mynediad 1 (Entry 1) part two named Mynediad 2 (Entry 2), and part three named Mynediad 3 (Entry 3). Each course relates to 20 hours of independent learning. The National Centre for Learning Welsh have also recently launched Mynediad Gwaith Chwarae 1 (Playwork Entry 1), however to date these have not been accessed by members of PACEY.

## What did PACEY Cymru do?

PACEY Cymru's Project Manager and Welsh language Coordinator have regularly attended online virtual meetings with Cwlwm partners to discuss work plans and targets in order to provide the best possible support for learners and to ensure training influences practice. The meetings provided an opportunity to share ideas and good practice with one another, and to discuss issues arising and to coordinate support and promotional messages.

| | | |
|---|---|---|
| Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs<br>www.clybiauplantcymru.org | Early Years Wales Blynyddoedd Cynnar Cymru<br>https://earlyyears.wales/ | mudiad meithrin arbenigwyr y blynyddoedd cynnar<br>https://www.meithrin.cymru/ |
| NDNA Cymru National Day Nurseries Association<br>https://www.ndna.org.uk/ | cwlwm<br>www.cwlwm.org.uk | pacey CYMRU<br>https://www.pacey.org.uk/ |

PACEY Cymru had a role to play in promoting the training with members of PACEY. Through continuous promotion of the course, PACEY Cymru received a total of 45 potential learners expressing their interest between April 2022 and September 2022. This includes 31 for Mynediad 1, 8 for Mynediad 2 and 6 for Mynediad 3, and these figures continue to grow. Members were asked to contact PACEY Cymru to express their interests in the first instance, where they would be asked to complete a registration form to access the course. Once these steps were complete, learners would then have access to the course of their choice with the option of accessing the north or south Wales version of the course.

To enhance the learning further Camau learners have accessed PACEY Cymru's Welsh language support webinars. These short sessions are suitable for those with little or no Welsh skills, as well for those who wish to build on their confidence to use the language. Welsh vocabulary is shared and supported with an audio document to use back in the setting, focussing on different topics or themes that learners can use in their daily routine, following the interest of the children.

In addition to this PACEY Cymru also provides 1-2-1 Welsh language support via telephone and email which learners can access within their PACEY membership.
PACEY Cymru also developed a variety of supporting resources that learners could access on the platform to further enhance their learning. These resources were mapped to the relevant units within the course and promoted by the Welsh Language Coordinators.

**Testimonial of a Camau learner– Deborah Badeida, registered childminder, Cardiff.**

Deborah has been child-minding for 6 years, and is based in Cardiff, south Wales. Along with the support from her assistant, Deborah cares for 7 children, aged from 1 to 3.

Deborah's reason for taking up the Camau training was to increase her level of Welsh and to be able to promote Welsh language to children in the setting, as well as her own children. "*My long-term goal is to be a fluent Welsh speaker and to increase the amount of Welsh we use in the setting. I would like to be able to offer advice, to converse and share ideas in Welsh, and to increase the participation of Welsh by children and parents."*

Having accessed Camau training, we asked Deborah whether she has used more Welsh within her practice, to which she responded, ***"****Yes I now use Welsh every day to converse with parents in greeting and daily with the children who attend my setting."*




We asked Deborah whether the Camau training has encouraged her to plan more for Welsh language development within her setting, to which she responded, "*Yes, we have done bug hunting, stories, and songs in Welsh. I planned an interactive story in Welsh, where children could participate and add colours or items and repeated the words in Welsh. We also had Welsh animal songs, with farm animals using PACEY Cymru's animal audio resource*.

*Other examples include weather song with visual pictures of different weathers; collecting items in Welsh; nature hunts in Welsh."*





Deborah shared with us some images taken of activities where she had incorporated Welsh vocabulary, and story books.

Here you can see the children in Deborah's care enjoying the outdoors, learning about the Welsh terms for a 'mini beast' they found locally, and sharing a Welsh story together.

Along with Camau training, Deborah has also accessed PACEY Cymru's Welsh language support webinars, CEY smart online training portal as well as Welsh audio resources to support her Welsh language activities. Deborah added, *"I have thoroughly enjoyed taking part in the webinars with PACEY Cymru and the Camau course is just fantastic. It is everything I need to further my development my Welsh skills."*

Deborah's advice to those thinking of taking up the training is: *"Take the first step, just make a start! The course is user friendly and so much fun. Everything is catered for, and you'll find out so much more than you thought, and you'll realise how much you already know as you progress."*

www.clybiauplantcymru.org

https://earlyyears.wales/

https://www.meithrin.cymru/

https://www.ndna.org.uk/

www.cwlwm.org.uk

https://www.pacey.org.uk/